Cofnodion Cyfarfod 9 Hydref 2012 a gynhaliwyd yn y Felin sgwrsio, Y Felinheli am 7:00 yh.

YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Bethan Jones
Eluned Owen
Pat Jones
Hywel V Jones
Daniel Williams
Louise Hughes
George Smith
Sarah Riley
Siân Gwenllïan
Nerys John

Hefyd yn bresennol Wynne Barton
Swyddog Ariannol

1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Hydref y Cyngor, adroddodd y Cadeirydd bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud y gwaith i'r Stepiau'r Cei a byddai'r biniau ailgylchu yn eu lle o fewn bythefnos.

1.2 Roedd wedi derbyn cwynion bod angen torri coed.

1.3 Roedd cyfarfod safle wedi bod ynglŷn â thir ger 11 Ffordd Caernarfon ac yn dilyn eglurhad gan Gwawr Hughes Cynllunio Cyngor Gwynedd roedd y trigolion yn hapus heblaw am Mr Hazlegrove.

1.4 Roedd materion ynglŷn â gwrthwynebiad i'r llwybr porffor y ffordd osgoi arfaethedig Bontnewydd a Chaernarfon yn mynd yn ei flaen er bod angen pwysleisio mai gwrthwynebiad i'r rhan gyntaf oedd yn bodoli h.y. angen i'r llwybr y ffordd osgoi gychwyn o gylchfan Plas Menai.

1.5 Gweithgareddau'r Bartneriaeth yn symud ymlaen gyda chynigion i wneud cae amlbwrpas gydag ardal i blant bach efallai ardal i arddio a thyfu llysiau. Mae angen rheoli dŵr ar y safle efallai bod cyfle i gael cynllun trydan "Micro Hydro" ar gyfer goleuo'r safle; bydd angen cyllido'r fenter a gobeithir gwneud cais i'r "Big Lottery Fund".

1.6 Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod cyntaf Cymdeithas newydd "The Felinheli History Society" ac roedd y gymdeithas honno bellach yn ymwybodol o bwy oedd y Cadeirydd a gwaith y Cyngor Cymuned o fewn y pentref.

1.7 Roedd Hefyd wedi bod mewn cyflwyniad ynglŷn â rheoli baw cwn, dywedodd ei fod wedi cynnig bod rheolaeth baw cwm mewn mynwentydd yn cael ei gynnwys. Roedd ffurflenni i'w llenwi a rhoddwyd i aelodau'r cyngor i gwblhau.

Ymddiheuriadau Iestyn Harris

2.0 CYFETHOL AELOD

Derbyniwyd Sarah Riley fel Aelod newydd o'r Cyngor Cymuned.

3.0 DATGAN DIDDORDEB

Dim.

4.0 COFNODION

4.1 Cyflwynwyd Cofnodion 11eg o Fedi 2012

Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir ac arwyddwyd y cofnodion.

5.0 MATERION YN CODI

5.1 **Cysylltiadau ffynonellau cymorth ariannol** - eglurodd y Clerc ei bod wedi derbyn y cysylltiadau ffynonellau cymorth ariannol oddi wrth Dafydd Einion Jones a chan nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i symud ymlaen a cheisiadau ariannol ar hyn o bryd fyddai yn eu cadw wrth law hyd nes bydd eu hangen.

5.2 **Gwefan y Felinheli** - nifer o "hits" am fis Medi =34,646. Dwedodd y Cadeirydd ei fod am gysylltu â Delwedd gan fod angen gwaith twtio ar y wefan a chael cyngor ar ei datblygiad.

5.3 **Ymgymerwr Torri Gwair** - roedd y Swyddog Ariannol wedi methu cysylltu â'r Ymgymerwr. Mae'r toriad olaf wedi ei gwblhau yn y fynwent er nad oedd y gwair wedi ei gasglu. Mae'r contract bellach wedi gorffen. Dywedodd y Swyddog Ariannol y byddai yn dal y taliad olaf yn ei ôl er mwyn sicrhau bod yr ymgymerwr yn cysylltu. Mae angen darparu am dendr ar gyfer blwyddyn nesaf.

6.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

6.1 Nid oedd Cadeirydd y Neuadd yn bresennol i gyflwyno adroddiad ond rhoddwyd gwybodaeth am rai materion gan y Cynghorydd Daniel Williams a'r Swyddog Ariannol.

6.2 Roedd Cwmni Theatr Bara Caws wedi ymweld â'r neuadd a'i bod yn addas ar gyfer ei defnyddio ym mis Mawrth 2012.

6.3 Gan fod gwaith ail wneud y neuadd bellach wedi ei orffen a holl faterion ariannol yn ymwneud a'r gwaith hwnnw wedi ei gwblhau gyda `r holl daliadau wedi eu gwneud, dywedodd y Swyddog Ariannol bod rhan yma o'r cyfrif nawr bellach wedi dod i ben. Cyflwynwyd taflen o'r cyfrif dangosir £1082.83 o gredid.

Cynigwyd bod Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd yn edrych ar y cyfrifon cyn eu bod yn cael ei derbyn.

6.4 Angen i'r "Fire Extinguishers" cael eu gwasanaethu gan gwmni "Snowdonia Fire".

6.5 Gobeithir derbyn gwerth y Neuadd erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor gan fod Dafydd Hardy wedi ymweld â'r neuadd bore 'ma.

6.6 Diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei waith trylwyr ar weithgareddau'r Neuadd.

7.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

7.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Medi a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.

8.0 GOHEBIAETH

8.1 Dim.

9.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

9.1 Gwaith ar y cloc yn parhau.

10.0 CEISIADAU CYNLLUNIO

10.1 C12/0986/20/LL cais llawn ar gyfer codi annedd 3 llawr - safle ger 11 Ffordd Caernarfon, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RZ. - Roedd cais gyda mân newidiadau wedi ei dderbyn ac yn dilyn hwn fe gafwyd ymweliad safle gyda Gwawr Hughes o Cyngor Gwynedd lle cafwyd eglurhad manwl. Dywedwyd hefyd os byddai gwrthwynebiad pellach i'r parcio ar sail diogelwch, tybiodd y byddai'r adran briffyrdd yn ceisio rhoi gwaharddiad aros ar y safle.

10.2 Rhoddwyd eglurhad bod cynllun diwygiedig wedi ei wneud i rannau o'r Lon Las a bod pawb bellach yn fodlon - bydd y gwaith o farcio'r cynllun yn mynd yn ei flaen yn fuan.

11.0 NEUADD YR EGLWYS

11.1 Dim gwybodaeth i'w adrodd ond rhoddwyd adroddiad byr ar y mater fel gwybodaeth gefndirol i'r aelod newydd.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i Bethan Jones a Louise Hughes am eu gwaith gweinyddol ynglŷn â chofrestr claddedigaethau llwch.

13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

13.1 Cyfarfod ac aelodau a Mr Horrocks byth wedi ei gyflawni.

13.2 Safle Moriah - Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwr y lafant ar y safle, roedd bwriad i'r Clwb Arddio drin y lafant a'i ddefnyddio ond hyd yma nid yw'r Clwb wedi cyfarfod.

13.3 Mae plant yn beicio a chwarae ar y maes parcio'n pery gofid, byddai cael ardal i'r plant fel rhan o gynlluniau'r bartneriaeth o fantais.

14.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

14.1 Gwaith ar y llwybr o Seion wedi ei gwblhau gan y Ramblers.

14.2 Dim problemau wedi eu datgan.

14.3 Gan fod gwaith o godi'r feddygfa yn mynd yn ei flaen gwelwyd bydd mwy o ofyn am fysiau o'r safle bws ochr Gaernarfon gyferbyn a'r Eglwys.

Cynigwyd ac eiliwyd bod mainc yn cael ei gosod yn y gysgodfan fws. Roedd pawb yn gytûn.

15.0 CYNGHORYDD SIR

15.1 Gwaith Watkin Jones i godi 54 Tŷ yn dechrau'r wythnos yma a bydd y compound y safle yn cael ei leoli yn y top.

15.2 Bydd rheolaeth traffig go gyfer y safle gyda lorïau yn cael ei gwahardd i ddefnyddio'r safle pan fo'r ysgol yn cychwyn y bore a chau yn y prynhawn.

15.3 Cafwyd bras ddarlun o atodlen y gwaith.

Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am ymweliad safle ynglŷn â lleoli drych i drigolion Tafarngrisiau tra bo'r gwaith ymlaen.

15.4 Gwaith codi'r Feddygfa yn mynd yn ei flaen, newidiadau wedi bod yn anorfod i'r sylfaeni.

15.5 Gobeithir bod modd rhoi ffin ddraenen wen yn lle ffens ynghyd a chofrestru'r llwybr i'r traeth fel un cyhoeddus.

15.6 Wylfa B - mae'n ymddangos bod Wylfa B yn mynd i ddod; hefyd mae cynllun i godi peilons i'r Orsaf ym Mhentir ac mae corridor y Peilons o fewn y Felinheli.

15.7 Mae Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen a cyflwyno 40 m.y.a. ochr Bangor i'r Pentref, mae cais wedi ei wneud gogyfer symud y 30 m.y.a. Er mwyn cynnwys y Cae Pêl droed.

15.8 Ar hyn o bryd mae problem a'r wal gynnal yn y Cei Llechi oherwydd nid oes neb yn gwybod pwy sy'n gyfrifol amdani.

15.9 Mae ymholiadau ynglŷn â sicrhau tir gogyfer parc sglefrio yn y Wern yn parhau.

15.10 Mae cwynion wedi eu derbyn gan y Clwb hwylio bod peli yn cael eu cicio o'r cae pêl droed yn broblem. Cafwyd Trafodaeth ynglŷn os byddai modd cael nets yno; ond oherwydd toriadau tybiai na fyddai hyn yn bosib.

Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau go gyfer i'r Cyngor Cymuned gymryd rheolaeth o'r cae dry les.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....